Ferryside V.C.P. School
Ferryside
Carmarthenshire
SA17 5TB

18/02/2025

Annwyl Michelle Evans

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Glanyfferi yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd yn Mehefin 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad â disgyblion
- cyfarfod gydag athrawon a'r pennaeth dros dro
- craffu ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennaeth

**Ffocws yr ymweliad**

**Sicrhau bod gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu hunain a'r disgyblion er mwyn cynnal a chodi safonau**

- Mae arweinwyr wedi mynd ati'n ddiwyd i gynllunio camau i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Maent wedi gosod blaenoriaeth yn y cynllun gwella ysgol a chryfhau gweithgareddau hunanwerthuso er mwyn sicrhau bod athrawon yn defnyddio cwestiynau'n effeithiol er mwyn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u gwaith. O ganlyniad, yn yr enghreifftiau gorau, mae'r staff yn gofyn cwestiynau agored, treiddgar i ddisgyblion er mwyn eu hannog i feddwl yn ddwys ac i fyfyrio am eu hymatebion.



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Maent wedi adnabod cyfleoedd priodol i staff ymgymryd a gweithgareddau hyfforddiant er mwyn cryfhau eu medrau ac i gefnogi disgyblion. Mae hyn wedi cryfhau medrau'r staff wrth ymateb i waith disgyblion a gosod heriau bwrpasol iddynt.
- Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o iaith lafar disgyblion. Maent yn modelau rôl da yn bwydo iaith goeth i ddisgyblion yn rheolaidd ac yn disgwyl i ddisgyblion ddefnyddio iaith gywir yn rheolaidd. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau iaith lafar disgyblion.
- Mae'r staff yn rhannu nodau dysgu a meini prawf llwyddiant yn glir gyda disgyblion. O ganlyniad mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o beth i wneud yn ystod tasgau ac mae llawer yn medru gwerthuso pa mor llwyddiannus yr ydynt yn eu gwaith.
- Mae disgyblion yn herio ei gilydd yn rheolaidd i wella ansawdd eu gwaith, yn enwedig gyda safon eu iaith llafar. Maent yn cynnig geirfa i'w gilydd ac yn cefnogi ei gilydd yn y dosbarth.

**Sicrhau bod digon o gyfleoedd amrywiol i ddisgyblion hŷn gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm**

- Mae athrawon yn cynllunio'n bwrpasol er mwyn darparu profiadau dysgu sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd priodol yn eu medrau rhifedd dros amser.
- Mae athrawon wedi dechrau darparu profiadau diddorol sy'n cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, fel ystyried goblygiadau amserlen y fferi i Lansteffan.
- Mae arweinwyr wedi trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer athrawon sy'n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd medrau rhifedd disgyblion.
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn ymateb i waith disgyblion yn bwrpasol ac yn cynnig adborth llafar sy'n cefnogi disgyblion i wneud gwelliannau defnyddiol i'w gwaith.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6693013

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol